

CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
PWYLLGOR CYLLID
7.30pm 14 EBRILL 2022

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Ddinesig San Pedr ac yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cyng. Ken Lloyd.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Ken Lloyd (cyswilt fideo), Matthew Thomas a Wyn Thomas

Mr Alun Harries – Clerc i'r Cyngor Tref
Mrs Emma Smith - Dirprwy Glerc y Dref a Rheolwr Cyllid

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, enwebwyd y Cyng. Ken Lloyd fel cadeirydd y cyfarfod hwn.

408. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Ioan Matthews a Jeff Thomas.

409. Datgan Buddiannau

- (i) Cyng. Ken Lloyd ar gyfer eitem 412(f) oherwydd ei fod yn aelod o fudiad sy'n llogi'r neuadd yn flynyddol.
- (ii) Cyng. Matthew Thomas, ar gyfer eitem 412(f) oherwydd ei fod yn aelod o sefydliad sy'n llogi'r neuadd yn flynyddol.

410. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cyllid

Dim materion yn codi.

411. Awdurdodi llofnodi'r Gorchymyn i Dalu'r Rhestr Cyfrifon ar gyfer Ebrill 2022.

Ystyriodd yr aelodau'r taliadau a derbyniwyd y rhestr. Cynigiodd y Cynghorydd Wyn Thomas y dylai'r rhestr daliadau gwerth cyfanswm o **£159,594.14** gael ei chymeradwyo a'i llofnodi gan ddau aelod o'r Cyngor a'r Clerc. Eiliodd y Cyng. Matthew Thomas y cynnig. Cytunodd yr holl aelodau a **PHENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo pob taliad.

412. Adroddiad Ariannol

Darparwyd adroddiad cyllid ar gyfer Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022

Balansau banc y Cyngor fel ar yr 31 Mawrth 2022 fel y ganlyn:

	£
HSBC Cyfrif Cyfredol	47,234.14
HSBC Cyfrif Wrth Gefn	358,624.87
Cyfanswm yn y banc	405,859.01

Balansau Cyfrifon Eraill fel ar 31 Mawrth 2022:

Lwfans y Maer	-	£3,682.04
Ras y Maer	-	£6,546.06
Siop De Parc Caerfyrddin	-	£12,403.90

- Cyfanswm y gwariant gros am y cyfnod 1af Ebrill hyd at 31 Mawrth 2022 oedd £722,666.78.
- Cyfanswm yr incwm am yr un cyfnod, gan gynnwys Siop De'r Parc, oedd £139,162.34. 139,162.34. Felly, y gwariant net cyffredinol yw £583,504.44
- Gofyniad y Gyllideb / Praesept Net ar gyfer 2021/22 yw £779,129, ac mae'r cyfan wedi'i dderbyn. Bydd yr aelodau'n nodi o'r uchod bod y Cyngor wedi cwblhau'r flwyddyn o fewn y gyllideb ar 31 Mawrth 2022.
- Gwnaed taliadau i glirio biliau mwy cyn diwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer gwariant rhag-gyllidebol ar gyfer costau referniw a chyfalaf fel a ganlyn:

Goleuadau Stryd 2021-22	£19,257.66
Benthyciad uwchraddio i LED: Goleuadau Stryd	£7,380.90
Cyflogau – Mawrth 2022	£40,898.42
Mewnosod llwybr hygyrch – Parc Hinds	£12,372.00

- Trosglwyddwyd £130,000.00 o'r cyfrif cronfeydd wrth gefn i'r cyfrif cyfredol yn ystod mis Mawrth ar gyfer talu biliau.

NODWYD adroddiad Clerc y Dref.

413. Rhestr o'r Incwm Misol

CYMERADWYWYD y rhestr.

414. Cysoniadau Banc Chwarterol ar gyfer 31 Mawrth 2022

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r cysoniadau banc chwarterol ar gyfer y cyfrif cyfredol, y cyfrif wrth gefn a chyfrif y Siop De. Ni chodwyd unrhyw faterion, a **CHYMERADWYODD** y pwyllgor y cysoniadau.

415. Taliadau Debyd Uniongyrchol 2021-22

Ystyriodd a **NODODD** yr Aelodau yr adroddiad debyd uniongyrchol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22.

416. Prynu dodrefn awyr agored ar gyfer y Siop De.

Gofynnwyd am ganiatâd i brynu dodrefn awyr agored ar gyfer misoedd yr haf yn y Siop De. Cost dodrefn addas yw £1835 + TAW. Cynigiodd Matthew Thomas y dylid argymhell prynu'r dodrefn i'r Cyngor ac eiliwyd gan y Cyng. Wyn Thomas ac **ARGYMHELLWYD** i'r Cyngor.

417. Adolygiad o brisiau'r neuadd

Ailadroddodd y Cyng. Ken Lloyd a'r Cyng. Matthew Thomas eu datganiadau o fuddiant a wnaed o dan eitem 409 (i) a (ii) uchod fel aelodau o CAMRA. Nododd y Cyng. Lloyd bod ganddo ollyngiad gan y Swyddog Monitro sy'n ei alluogi i gymryd rhan yn y drafodaeth

Awgrymodd Clerc y Dref y dylid gwneud rhai newidiadau i'r taliadau presennol, sef:

- Dileu'r isafswm o £60
- Cost ychwanegol am ddefnyddio'r gegin oherwydd yr amser glanhau - £10 i'r gegin, £20 os am ddefnyddio'r popty hefyd.
- Dileu tâl ychwanegol am ddydd Sul.
- Cynnig yr ystafell bwyllgora am £15 yr awr yn ystod oriau swyddfa.
- Ailystyried y trefniadau presennol ar gyfer rhoi'r neuadd yn rhad ac am ddim nifer penodol o weithiau'r flwyddyn.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r newidiadau a awgrymwyd ac **ARGYMHELLWYD** pob un i'r Cyngor yn ogystal ag **ARGYMELL** dileu'r cyfleuster i'r Maer gynnig y neuadd yn rhad ac am ddim.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.02 y.h.